O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2732 (Cy. 294)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pwllan, i'r De o Landinam, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud	*14 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*28 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pwllan, i'r De o Landinam, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 28 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd ym Mhwllan, i'r de o Landinam, yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt canol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Neuadd Fach hyd at bwynt 450 metr i'r gogledd o bwynt canol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Lower Penrhuddlan.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd, yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

7.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd os yw'r cerbyd hwnnw'n 2.5 metr neu fwy o led.

8. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y mae'n cyfeirio atynt yn weithredol.

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Tachwedd 2011

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.